

Mae fersiwn Saesneg a fersiwn Hawdd ei Deall o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Sgrinio Ymgeiswyr a Dysgwyr sy'n Gyn-droseddwyr

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff.

Yn CAVC, rydym yn cydnabod effaith sylweddol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar lesiant a datblygiad unigolion. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull seiliedig ar drawma yn ein polisiâu a'n harferion i greu amgylchedd diogel, cefnogol ac adferol i bawb.

Bydd ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu yn cael pob cyfle i ddilyn cwrs priodol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ar yr amod y gall y Coleg gynnal ei ddyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel i'w ddysgwyr, staff ac ymwelwyr. Mae datgelu euogfarnau heb eu disbyddu yn amod cofrestru ac ailgofrestru a bydd yn ofynnol i ddysgwyr ddatgelu euogfarnau heb eu disbyddu yn barhaus.

Mae'r polisi yn berthnasol i bob ymgeisydd llawn amser a rhan amser sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu fel y'u diffinnir gan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (1974). Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sy'n ymgeisio neu'n cofrestru ar raglenni dysgu ni waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio, a'r holl staff yn y coleg. **Mae rhai proffesiynau wedi'u heithrio o'r Ddeddf hon ac o ganlyniad gall euogfarnau wedi'u disbyddu a heb eu disbyddu effeithio ar allu unigolyn i gofrestru ar gyrsiau penodol.** Mae'r Polisi'n berthnasol i bawb sy'n ymgeisio i'r Coleg, er y bydd gofynion y cwrs unigol yn pennu ar y graddau o holl agweddau ar y Polisi Derbyniadau fydd yn cael eu gweithredu.

Mae'r Coleg yn glynu wrth bolisiâu'r holl bartneriaid a sefydliadau masnachfaint lle mai nhw yw'r prif recriwtiwr. Os nad oes gan bartner bolisi, bydd yn rhaid iddo ddilyn y polisi hwn.

Datganiadau'r Polisi

Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiiff dysgwyr eu cefnogi er mwyn eu **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau anfantais, neu'n gwaredu arno, sy'n cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	14/06/2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	14/06/2025

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Ddatblygu gweithdrefnau i amlinellu sut fydd gofynion y polisi yn cael eu bodloni mewn ymarfer a fydd yn cyfateb yn llawn i ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig. Bydd y rhain yn weithdrefnau teg a thryloyw ar gyfer prosesu ymgeiswyr sy'n gyn-droseddwy.
- Sicrhau bod ceisiadau'n cael eu prosesu mewn modd amserol, gan ystyried yr holl ffeithiau sydd ar gael.
- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Hyfforddi'r holl staff yn llawn ar y gweithdrefnau cysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n sail iddynt; bydd yr hyfforddiant ar lefel addas i'w rôl.
- Hysbysu pawb y mae'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn effeithio arnynt am eu cynnwys, ynghyd â'r goblygiadau iddyn nhw; bydd hyn yn cynnwys partneriaid a sefydliadau breiniol.
- Cynnig cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr sy'n gyn-droseddwy.
- Darparu'r adnoddau perthnasol er mwyn gallu cyflawni'r gweithdrefnau cysylltiedig yn effeithiol ac effeithlon.
- Cofnodi a monitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a'i weithdrefnau, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw ofynion allanol megis deddfwriaeth, canllawiau etc.
- Adolygu'r data uchod i roi ystyriaeth i effeithiolrwydd y polisi hwn a'i weithdrefnau i gefnogi gwelliant parhaus.
- Sicrhau bod yr holl ddysgwyr posib yn cael eu trin yn gyson, yn deg ac yn ddiduedd.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n destun pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ayyb yn cefnogi egwyddorion y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	14/06/2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	14/06/2025

Mae Pennaeth Cynorthwyol, Taih y Dysgwr yn gyfrifol am:

- Gadw'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo er mwyn bodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau darpariaeth hyfforddi a datblygu priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth na drwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a GDPR.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Mynychu digwyddiadau CPD ynghylch agweddau sy'n berthnasol i lwyddiant y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Dilyn gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r polisi hwn.
- Rhoi adborth ar y polisi mewn grwpiau ffocws dysgwyr a thrwy gyfleoedd eraill.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Plant 1989

Deddf Plant 2004

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau lechyd a Diogelwch

Nid oes goblygiadau lechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r polisi hwn. Ymdrinnir ag unrhyw oblygiadau lechyd a Diogelwch gweithgareddau ymchwil gan weithdrefnau'r ymchwil.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	14/06/2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	14/06/2025

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, ac y dylent hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg, ac o ganlyniad ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

Polisiau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data
- Ansawdd
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Diogelu
- Derbyniadau Rhyngwladol
- Derbyniadau AU
- Datgan Cofnodion Troseddol

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data
- Diogelu
- Sgrinio Cyn-droseddwy

Cyfathrebu a Storio

Caiiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	14/06/2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	14/06/2025

Dyddiad cymeradwyo: 06/07/2011

Cymeradwywyd gan: CQSA

Dyddiad adolygu: 14/06/2025

Rheolwr sy'n Gyfrifol: Rheolwr Diogelu a Llesiant

Arweinydd Gweithredol: Pennaeth Cynorthwyol,
Taith y Dysgwr

Hygyrch i Fyfrwyr: Ydy

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	14/06/2023
Dyddiad Adolygu Nesaf:	14/06/2025